Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**


| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Meilyr Rowlands |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 22.10.21 |
| **Pwnc / Subject:** | **Cynllun Gweithredu LHDTC+** |


**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

Rydym yn croesawu'r cyfle i ddarparu adborth ar Gynllun Gweithredu LHDTC+ Llywodraeth Cymru, a phe byddai'n fuddiol, byddem yn hapus i gyfarfod i drafod ein hadborth ymhellach.

**Trosolwg**

Rydym yn cefnogi egwyddorion, nodau a chamau gweithredu cyffredinol Cynllun Gweithredu LHDTC+ Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru. Rydym yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddiogelu hawliau dynol i bawb ac eisiau galluogi pawb sy'n LHDTC+ yng Nghymru i fyw bywydau mor llawn ag y bo modd, a bod yn iach, yn hapus ac yn ddiogel.

Mae gennym ni bryderon am sylwadau a wnaed yn y Rhagair Gweinidogol, ac wedi amlygu'r rhain yn ein hymateb i gwestiwn 10.

A siarad yn fras, byddem yn argymell bod y chwe phrif thema yn y Cynllun Gweithredu yn cael eu hategu gan gamau gweithredu penodol wedi'u blaenoriaethu sy'n ymwneud â gwella, ac yn cynnwys targedau 'CAMPUS'. Rydym wedi rhoi mwy o fanylion o dan y cwestiynau perthnasol isod.

Gellid cryfhau'r cynllun trwy gynnwys trefniadau 'llywodraethu ar gyfer gweithredu' yn debyg i'r rhai a amlinellir yn 'Cymru Wrth-hiliol: Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol' Llywodraeth Cymru. Gallai hyn fod yn gam cadarnhaol tuag at ddarparu cymorth, her, monitro ac ymyrraeth y Cynllun Gweithredu. Hefyd, gallai fod yn bragmataidd a defnyddiol cynnwys Estyn fel arsyllwyr mewn unrhyw drefniadau llywodraethu lle maent yn ymwneud yn benodol ag addysg.

Mae gan Estyn rôl barhaus i arolygu addysg a hyfforddiant a rhoi cyngor i Weinidogion Cymru. Mae ein hadroddiad thematig (Estyn, 2020) 'Dathlu amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant: Arfer dda o ran cefnogi dysgwyr lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol (LGBT) mewn ysgolion a cholegau' yn nodi enghreifftiau o arferion cadarnhaol y gall ysgolion a cholegau adeiladu arnynt. Efallai y byddwch chi eisiau ystyried gofyn i Estyn gynnal adolygiadau thematig yn y dyfodol i gefnogi rhoi'r cynllun ar waith.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

Mae chwe phrif thema i'r Cynllun Gweithredu: Hawliau Dynol ac Adnabyddiaeth; Diogelwch; Cartref a Chymunedau; Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Addysg; a'r Gweithle. Hoffem gael gwybod eich meddyliau ar y camau gweithredu arfaethedig o fewn pob thema. Efallai y byddwch eisiau rhoi sylwadau ar un o'r meysydd hyn, neu bob un ohonynt.

Defnyddiwch y cwestiynau canlynol yn sylfaen i'ch ymateb. Mae croeso i chi ychwanegu sylwadau neu wybodaeth ychwanegol, os ydych yn dymuno.

# Cwestiwn 1

Ydych chi’n meddwl y bydd y Cynllun Gweithredu yn cynyddu cydraddoldeb ar gyfer pobl LHDTC+, a beth ddylai’r blaenoriaethau fod, yn eich barn chi?

Mae’r Cynllun Gweithredu’n cynnwys llawer o gamau gweithredu penodol a ddylai helpu hyrwyddo cydraddoldeb ar gyfer pobl LHDTC+. Yn ychwanegol, ble gellid cryfhau camau gweithredu penodol, rydym wedi cynnwys sylwadau ar y rhain isod.

At ei gilydd, mae’n ymddangos bod y chwe phrif thema a amlinellir yn awgrymu meysydd pwysig ble mae angen gweithredu. Fodd bynnag, byddai’n fuddiol pe bai’r cyflwyniad i’r Cynllun Gweithredu yn amlinellu’n gliriach sail y dystiolaeth a arweiniodd at y penderfyniad i flaenoriaethu’r meysydd hyn. Nid yw’r adroddiad yn rhoi rhyw lawer o gyd-destun o amgylch hyn, ar wahân i’w disgrifio fel deilliannau o’r grwpiau ymgysylltu â rhanddeiliaid a barn y panel arbenigwyr.

Yn yr un modd, os yw’r Cynllun Gweithredu am gael effaith a chynyddu cydraddoldeb yn llwyddiannus, mae nifer o heriau y bydd angen eu goresgyn i sicrhau ei effeithiolrwydd. Er enghraifft:

- Blaenoriaethu’r rhestr helaeth o gamau gweithredu ar draws ystod eang o adrannau
- Cysylltu’r camau gweithredu hyn â’r nodau trosfwaol
- Darparu eglurder ynghylch graddfeydd amser, cyfrifoldebau a monitro effaith
- Cysylltu’r camau gweithredu â chyfrifoldebau presennol ym meysydd polisi Llywodraeth Cymru

Mae sylwadau Estyn ar y camau gweithredu penodol sy’n gysylltiedig ag addysg fel a ganlyn:

- Cam Gweithredu 47 – ‘Darparu buddsoddiad strategol a chynhwysfawr mewn dysgu proffesiynol a hyfforddiant ar gynllunio cwricwlwm cwbl gynhwysol ar gyfer pobl LHDTC+. Dylai hyn gynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy’n cynnwys LHDTC+ i bawb’. Byddai hyn yn elwa ar nodi’n eglur ystod oedran y cwricwlwm y byddai’r dysgu proffesiynol yn ei chefnogi, h.y. mae’n bwysig fod plant yn cael profiad o fodelau rôl LHDTC+ cadarnhaol o oedran cynnar.
- Cam Gweithredu 48 – ‘Sicrhau bod rhaid i hyfforddiant hefyd rymuso gweithwyr proffesiynol i roi digon o gefnogaeth i bobl ifanc LHDTC+ ac i fynd i’r afael â bwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig, trwy weithredu ymagwedd ar sail hawliau’. Byddai hyn yn elwa o ofyn i arweinwyr ddod o hyd i’r hyfforddiant priodol. Canfu ein hadroddiad ‘Dathlu amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant’ (Estyn, 2020) fod mynd i’r afael yn effeithiol â bwlio LHDTC+ yn digwydd o ganlyniad i arweinwyr yn sefydlu ethos yn eu sefydliad sy’n gadarnhaol ynghylch hawliau LHDTC+. Yn ychwanegol, mae ein hadroddiad yn cydnabod yr angen i sefydlu systemau cadarn i nodi a mynd i’r afael â phroblemau bwlio wrth iddynt godi. Byddai’r Cam Gweithredu yn cael ei wella trwy fod wedi’i gysylltu’n eglur ag arweinyddiaeth.

- Cam Gweithredu 50 - 'Darparu canllawiau traws cenedlaethol statudol i ysgolion ac awdurdodau lleol'. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Cam Gweithredu hwn yn fwy penodol ynghylch y meysydd y byddai'r canllawiau traws arfaethedig yn eu cwmpasu a sut gallai gysylltu â chanllawiau eraill yn y sector addysg, er enghraifft canllawiau Llywodraeth Cymru, *Hawliau, parch, cydraddoldeb: canllawiau statudol ar gyfer cyrff llywodraethol ysgolion a gynhelir*.
- Cam Gweithredu 51 – 'Parhau i fuddsoddi mewn rhaglenni atal troseddau casineb ledled Cymru'. Nid yw'n glir sut mae Cam Gweithredu 51 yn ymwneud yn uniongyrchol ag addysg. Byddai'n fuddiol bod yn fwy eglur ynghylch elfennau rhaglenni atal troseddau casineb y gellid eu hymgorffori orau yn narpariaeth ysgolion a cholegau.

- Cam Gweithredu 52 – 'Gweithio gyda cholegau a phrifysgolion yng Nghymru i sicrhau bod amgylcheddau sy'n ystyriol o bobl LHDTC+ ar gyfer dysgwyr a staff, gan nodi arferion gorau ac adeiladu arnynt'. Mae Cam Gweithredu 52 yn ymddangos yn eang iawn o ran cwmpas. Byddai mwy o fanylion am sut y gellir cyflawni hyn yn fuddiol. Er enghraifft, amlygu pa un o adrannau Llywodraeth Cymru neu sefydliad arall fyddai'n helpu darparu cyngor i'r sefydliadau hyn i gefnogi'r sectorau hyn i nodi a rhannu arfer orau? Hefyd, byddai'n fuddiol ystyried beth fyddai rôl y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil arfaethedig.

## Cwestiwn 2

Ydych chi'n cytuno â'r nodau trosfwaol? Beth fyddech chi'n ei ychwanegu neu'n ei ddileu o ran y nodau trosfwaol?

Rydym yn cytuno ei bod yn ddefnyddiol darparu set o nodau trosfwaol sy'n 'darparu llinyn strategol a chyffredin sy'n rhedeg trwy gydol y camau gweithredu mwy penodol sy'n dilyn' a 'nodi'r elfennau cyffredin a rennir gan gamau gweithredu yn y cynllun cyfan.'

At ei gilydd, gellid cryfhau'r adran hon pe bai'r nodau trosfwaol yn cysylltu'n fwy cyson â phrif themâu (meysydd polisi) y cynllun. Er enghraifft, ceir cyfeiriad eglur at hawliau dynol ac adnabyddiaeth yn y ddau gam gweithredu cyntaf[1] ond dim cyfeiriad at wella deilliannau addysgol neu iechyd na chydlyniant cymunedol ar gyfer pobl LHDTC+. Gallai ymagwedd fwy cyson at hyn fod yn fuddiol wrth amlinellu meysydd polisi allweddol o'r cychwyn, ac amlinellu gweledigaeth gliriach

[1] Action 1 - We will strengthen equality and human rights for LGBTQ+ people and we will seek to influence the UK Government to strengthen the protections afforded to trans and non-binary people under the law, including refugees and those seeking asylum.

Action 2 - We will ensure that the rights of LGBTQ+ people are recognised and mainstreamed across the public sector in Wales

a mwy cydlynus ar gyfer y cynllun. Yn yr un modd, mae ychydig o'r camau gweithredu a nodwyd yma yn ymddangos yn fwy priodol fel camau gweithredu i'w datblygu o dan y meysydd polisi allweddol yn hytrach na bod yn nodau trosfwaol y cynllun. Er enghraifft, efallai ei bod yn well cynnwys camau gweithredu 3 a 5[2] fel cam gweithredu penodol o dan feysydd polisi Gweithlu ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn y drefn honno. Byddai hyn yn galluogi'r cynllun i amlinellu nodau trosfwaol mwy heriol a dyheadol ar gyfer y meysydd polisi hyn o'r cychwyn.

Mae Cam Gweithredu 4 yn nodi '*Byddwn yn helpu i herio tybiaethau heteronormadol a cisnormadol a'i gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus nodi a chofnodi'n briodol hunaniaethau LHDTC+ ar adeg mynediad. Bydd anghenion cymunedau LHDTC+ yn weladwy wrth gynllunio gwasanaethau a dadansoddi ar lefel y boblogaeth; a byddwn yn annog dylunio gwasanaethau ar y cyd*.' Gallai fod yn fuddiol cryfhau'r nod cyffredinol hwn i gynnwys herio defnydd negyddol o derminoleg hefyd, o ystyried bod llawer o achosion o wahaniaethu yn ymwneud â'r iaith / y derminoleg a ddefnyddir i gyfeirio at y gymuned LHDTC+.

At ei gilydd, nid oes rhyw lawer o gyfeiriad at ddiwallu anghenion na dewisiadau ieithyddol pobl LHDTC+, yn enwedig o ran sicrhau eu bod yn gallu manteisio ar wasanaethau a chymorth perthnasol trwy eu dewis iaith.

## Cwestiwn 3

Ydych chi'n cytuno â'r camau gweithredu arfaethedig? Beth fyddech chi'n ei ychwanegu neu'n ei ddileu o ran y camau gweithredu?

**Sylwadau cyffredinol:**

Mae'r cynllun yn cynnwys llawer o gamau gweithredu sy'n cwmpasu ystod eang o gyfrifoldebau Llywodraeth Cymru a llawer o agweddau ar fywydau pobl LHDTC+. At ei gilydd, byddai'r cynllun yn elwa ar amlinelliad cychwynnol yn blaenoriaethu camau gweithredu yn gysylltiedig â graddfeydd amser. Yn ychwanegol, nid yw camau gweithredu wedi eu gwasgaru'n gyfartal ar draws y gwahanol feysydd polisi; er enghraifft, rhestrir tri o gamau gweithredu yn unig o dan Y Gweithle, ond mae un deg wyth o gamau gweithredu o dan Cartrefi a Chymunedau (nid yw'n cynnwys camau gweithredu lluosog wedi eu grwpio o fewn un cam gweithredu). Efallai byddai Llywodraeth Cymru yn dymuno esbonio'r rhesymeg ar gyfer camau gweithredu, a sut maent wedi eu dosbarthu i osgoi creu'r argraff fod rhai meysydd

[2] Action 3 - We will ensure that all public service workers understand LGBTQ+ needs, encouraging comprehensive, intersectional equalities training to be undertaken where necessary.

Action 5 - We will improve data collection, including intersectional data, to identify the discrimination and wellbeing disparities experienced by our LGBTQ+ communities.

polisi yn llai pwysig nag eraill. Byddai cyswllt clir rhwng y nodau trosfwaol ar ddechrau'r cynllun a'r camau gweithredu a restrir o dan y gwahanol feysydd polisi yn helpu sicrhau bod blaenoriaethau strategol y cynllun yn glir.

O'u hystyried yn unigol, mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu yn briodol a pherthnasol i'r maes polisi. Fodd bynnag, gellid eu cryfhau ymhellach mewn ychydig o achosion pe bai'r geiriad yn fwy cadarn. Er enghraifft, mae Cam Gweithredu 27 yn dweud 'Archwilio sut y gallwn ni roi cymorth i grwpiau ffydd…' ac mae Cam Gweithredu 43 yn dweud 'Ymrwymo i adolygu'r llwybr Hunaniaeth Rhywedd…' Yn y naill achos a'r llall, byddai mwy o bwys i'r cam gweithredu, a byddai'n ymddangos yn fwy cadarn pe bai'n cael ei aralleirio i ddechrau â 'Darparu cymorth' ac 'Adolygu' yn y drefn honno, yn hytrach nag archwilio sut i wneud hyn, neu ymrwymo i adolygu yn unig.

Mewn ychydig o achosion, fel y nodwyd yn ein hymateb i Gwestiwn 1, ni chaiff ystyr bwriadedig y camau gweithredu ei gyfleu yn glir bob amser trwy'r geiriad a ddefnyddir a gellid aralleirio'r cam gweithredu i sicrhau eglurder. Dylai enghreifftiau o gamau gweithredu y dylid eu gwobrwyo yn cynnwys:

- Cam Gweithredu 49: 'Hyrwyddo adnoddau i helpu teuluoedd pobl ifanc LHDTC+ drwy'r ymgyrch Magu Plant. Rhowch amser iddo'. Nid yw'n glir pa adnoddau fydd yn cael eu hyrwyddo na sut.
- Cam Gweithredu 54: 'Gyda chymorth gan Undebau Llafur, creu dull mwy cyfannol o lunio adnoddau hyfforddiant i weithleoedd preifat fel eu bod yn gwneud rhagor i gynnwys pobl LHDTC+'.

Mae'r diffyg geiriad clir ac ystyr bwriadedig y camau gweithredu yn cymhlethu ymhellach sut bydd cynnydd tuag at y camau gweithredu hyn yn cael ei fonitro a'i fesur – mae hyn yn cysylltu â phryderon uchod (ac isod) ar y mater hwn. Er enghraifft, nid yw'n glir beth allai dull mwy cyfannol ei olygu. Yn hytrach, gallai fod yn fuddiol datblygu set o egwyddorion arweiniol ar gyfer datblygu adnoddau hyfforddi yn y gweithle.

Yn benodol, o ran camau gweithredu a nodwyd o dan y thema Addysg, mae'n ymddangos yn gyffredinol fod y camau gweithredu o ran hyfforddiant a'r cwricwlwm yn alinio ag argymhellion ar gyfer ysgolion a cholegau a wnaed yn ein hadroddiad thematig (cyfeirir at hyn uchod yn yr adran Trosolwg). Fodd bynnag, mae diffyg penodoldeb mewn ychydig o gamau gweithredu, a fydd, fel y nodwyd mewn man arall, yn ei gwneud yn anodd asesu a monitro cynnydd tuag at y nod, fel Cam Gweithredu 52 (cyfeirir ato yn ein hymateb i Gwestiwn 1).

Nid yw perthnasedd ychydig o gamau gweithredu'r polisi hwn yn glir. Er enghraifft, gallai Cam Gweithredu 51 (buddsoddi mewn rhaglenni atal troseddau casineb) fod yn well o dan Cartrefi a Chymunedau, ble gallai, yn ychwanegol, helpu mynd i'r afael â chroestoriadedd â grwpiau hil a ffydd. Mae Cam Gweithredu 53 (opsiynau ar gyfer cyllid targedig ymchwil) yr un mor berthnasol i bob maes polisi, a gallai fod yn well o dan y nodau trosfwaol.

Hefyd, byddai'r cynllun yn elwa ar gael camau gweithredu mwy eglur i gefnogi iechyd a lles meddyliol plant a phobl ifanc LHDTC+, yr ydym o'r farn y dylai fod yn

flaenoriaeth. Yn yr adran *profiad dysgwyr LHDT mewn ysgolion a cholegau* yn ein hadroddiad thematig (cyfeirir at hyn yn yr adran Trosolwg), dywedwyd bod dysgwyr LHDT mewn mwy o berygl o gael iselder ac yn fwy tebygol o hunan-niweidio neu gael meddyliau am ladd eu hunain, o ganlyniad i anoddefgarwch yn y gymdeithas ehangach.

# Cwestiwn 4

## Beth yw'r heriau allweddol a allai atal y nodau a'r camau gweithredu rhag cael eu cyflawni?

Credwn fod yr heriau allweddol yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Y pwyntiau a wnaethom yng Nghwestiwn 3 ynglŷn â'r modd y mae camau gweithredu yn cysylltu â nodau trosfwaol. Dylai'r nodau fod yn gymharol eang a dyheadol a dylai'r camau gweithredu fod yn benodol.
- Bydd diffyg eglurder diben ar gyfer y cynllun yn gyffredinol, a pha mor benodol (neu fel arall) y mae camau gweithredu, yn effeithio ymhellach ar b'un a ellir cyflawni'r nodau a'r camau gweithredu. Pan nad yw'r rhain yn ddigon penodol, neu ble nad yw'r geiriad efallai yn ddigon trylwyr, mae hyn yn cymhlethu materion ynglŷn â sut bydd cynnydd tuag at gyflawni camau gweithredu yn cael ei fonitro a'i werthuso.
- Diffyg gwybodaeth am sut bydd cynnydd yn cael ei fesur a'i fonitro. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno ystyried *Y Fframwaith Mesur ar gyfer Cydraddoldeb a Hawliau Dynol* Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ymhellach, sy'n amlinellu'r parthau a'r dangosyddion y mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn eu monitro trwy ei Fframwaith Mesur. Mae hyn yn offeryn buddiol a all roi arweiniad i Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu mecanweithiau ar gyfer mesur a monitro. Wedyn, gellid cyfeirio at y rhesymeg ar gyfer y rhain yn y Cynllun Gweithredu er eglurder.

Gallai rhai grwpiau wrthwynebu agweddau penodol yn y cynllun oherwydd pryderon diffuant am effaith y ffafriaeth ganfyddedig ar hawliau rhai pobl (er enghraifft menywod trawsryweddol) dros bobl eraill (menywod cis).

Fel y nodwyd uchod, dylai'r cynllun gael ei ategu gan gamau gweithredu penodol sy'n ymwneud â'r nodau trosfwaol. Mae angen drafftio'r rhain mewn ffordd 'CAMPUS' er eglurder, gan amlinellu sut bydd y rhain yn cael eu monitro a dyrannu cyllid iddynt, er mwyn cynyddu'r gobaith i gyflawni'r nodau / camau gweithredu.

**Cwestiwn 5**

Pa adnoddau (gallai hyn gynnwys cyllid, amser staff, hyfforddiant, cyfle i gefnogi neu eirioli gwasanaethau ymhlith pethau eraill) ydych chi'n meddwl y bydd eu hangen i gyflawni'r nodau a'r camau gweithredu a amlinellir?

Mae'n anodd ateb y cwestiwn hwn gan nad yw'r Cynllun Gweithredu yn dangos blaenoriaethau, graddfeydd amser a chyfrifoldebau yn ddigonol. Rhagofyniad i ystyried dyrannu adnoddau fyddai penderfynu ar y flaenoriaeth a roddir i bob un o'r camau gweithredu.

Fodd bynnag, o ran camau gweithredu i wella addysg ynghylch materion LHDTC+ ar gyfer plant a phobl ifanc, yn ein hadroddiad, 'Dathlu amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant' (Estyn, 2020), rydym yn amlygu diffyg hyder ymhlith staff addysg mewn addysgu a mynd i'r afael â materion yn gysylltiedig â phobl LHDTC+. Mae'r adroddiad yn argymell:

"Dylai ysgolion a cholegau…Sicrhau bod pob un o'r staff yn ymgymryd â hyfforddiant rheolaidd wrth fynd i'r afael â gwahaniaethu a hyrwyddo amrywiaeth, yn cynnwys materion ynglŷn â phobl LHDT."

A:

"Dylai awdurdodau lleol a chonsortia…Weithio gyda phartneriaid allanol i gyflwyno cyfleoedd dysgu proffesiynol perthnasol ar gyfer staff mewn ysgolion ac ar draws sectorau cynradd ac uwchradd."

Yn sgil yr argymhellion hyn a chyngor y Panel Arbenigwyr LHDTC+ Annibynnol, dylai buddsoddi mewn dysgu proffesiynol ar gyfer staff addysg i ddeall yn well sut gallant gynorthwyo dysgwyr / teuluoedd LHDTC+ fod yn adnodd y rhoddir blaenoriaeth iddo. Byddai hyn yn cefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni Camau Gweithredu 47, 48 a 52.

# Cwestiwn 6

Ydych chi'n teimlo bod y Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn cwmpasu'r croestoriad o LHDTC+ yn ddigonol â nodweddion gwarchodedig eraill, fel hil, crefydd neu gred,

anabledd, oedran, rhyw, a phriodas a phartneriaeth sifil? Os na, sut gallwn ni wella hyn?

Na. Credwn fod yna rai diffygion yng nghroestoriadedd y cynllun. At ei gilydd, mae angen cryfhau'r cynllun i arddangos croestoriadedd yn ddigonol â nodweddion gwarchodedig eraill, er enghraifft trwy ddarparu enghreifftiau neu ystadegau dienw priodol o'r ymgysylltiad â rhanddeiliaid ar brofiadau croestoriadol a ystyriwyd ymhellach gan y Panel Arbenigwyr.

Mae angen i'r cynllun hwn ddangos pa mor dda y mae'n cysylltu â chynlluniau gweithredu eraill, er enghraifft cynllun gweithredu cydraddoldeb hiliol diweddar Llywodraeth Cymru. Nid yw'n ymddangos bod unrhyw groesgyfeiriadau at unrhyw gynlluniau cydraddoldeb Llywodraeth Cymru na strategaethau eraill, fel y Strategaeth Atal Hunanladdiad ar gyfer Cymru. Yn benodol, nid oes unrhyw gyfeiriad at sut yr eir i'r afael â'r anfantais a brofir gan y rhai o'r gymuned LHDTC+ sydd hefyd â nodwedd warchodedig hil ac anabledd.

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut mae ei dealltwriaeth o'r ffyrdd "y gall nodweddion gwarchodedig ryngweithio a chynhyrchu profiad ac anfantais unigryw, a mwy nag un o'r rhain yn aml mewn sefyllfaoedd penodol"[3] wedi arwain at y nodau a'r camau gweithredu penodol.

Yn ychwanegol, sylwn nad oes unrhyw gyfeiriad yn y Cynllun Gweithredu at unrhyw nodau na chamau gweithredu i fynd i'r afael â rhagfarn anymwybodol, y mae adroddiad y Panel Arbenigwyr yn dangos y byddai'n hyrwyddo dealltwriaeth o groestoriadedd. Felly, byddem yn argymell y dylid o leiaf ddiwygio Cam Gweithredu 3 i gynnwys cyfeiriad at ragfarn anymwybodol, ac y gallai fod yn well ei roi o dan feysydd polisi Gweithlu ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn y drefn honno.

Hefyd, byddai dangos sut bydd y Cynllun Gweithredu yn mynd y tu hwnt i Gynllun Gweithredu LHTDC+ Llywodraeth y Deyrnas Unedig, fel yr argymhellir gan y Panel Arbenigwyr, yn arwain at werthfawrogiad gwell o faterion croestoriadol, yn ein barn ni.

## Cwestiwn 7

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion hyn yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

[3] See the Intersectionality section of the Expert Panel report.

Beth ydych chi'n meddwl fyddai'r effeithiau? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

Ceir ychydig o gyfeiriadau yn unig yn y Cynllun Gweithredu am ei effaith ar y Gymraeg neu sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwella profiadau bywyd siaradwyr a dysgwyr Cymraeg LHDTC+. Rydym yn awgrymu y gellid cryfhau hyn i sicrhau darpariaeth gyfartal a dylai gyd-fynd â rhwymedigaethau Llywodraeth Cymru o dan Safonau'r Gymraeg a'i Strategaeth ar gyfer y Gymraeg.

Mae Cam Gweithredu 18 yn cyfeirio at y ffaith fod angen ymyrraeth dargedig i gynyddu nifer y gwasanaethau cymorth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i bobl LHDTC+, a allai o bosibl gael effaith gadarnhaol. Fodd bynnag, o'r wybodaeth gyfyngedig sydd wedi'i chynnwys yn y Cynllun Gweithredu, yn gyffredinol, mae'n anodd deall beth fyddai'r effeithiau (os o gwbl), a sut gellid cynyddu unrhyw effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol mewn perthynas â chyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg neu beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae angen mwy o wybodaeth (yn cynnwys sail y dystiolaeth) er mwyn i'r holl ymgynghoreion allu rhoi sylwadau ystyrlon ar y cwestiwn hwn.

## Cwestiwn 8

Hefyd, esboniwch sut rydych chi'n credu y gellid ffurfio neu newid yr ymagwedd polisi arfaethedig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu gynyddu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ceir ychydig o gyfeiriadau yn unig yn y Cynllun Gweithredu am ei effaith ar y Gymraeg neu sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwella profiadau bywyd siaradwyr a dysgwyr Cymraeg LHDTC+. Rydym yn awgrymu y gellid cryfhau hyn i sicrhau darpariaeth gyfartal a dylai gyd-fynd â rhwymedigaethau Llywodraeth Cymru o dan Safonau'r Gymraeg a'i Strategaeth ar gyfer y Gymraeg.

Mae Cam Gweithredu 18 yn cyfeirio at y ffaith fod angen ymyrraeth dargedig i gynyddu nifer y gwasanaethau cymorth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i bobl

LHDTC+, a allai o bosibl gael effaith gadarnhaol. Fodd bynnag, o’r wybodaeth gyfyngedig sydd wedi’i chynnwys yn y Cynllun Gweithredu, yn gyffredinol, mae’n anodd deall beth fyddai’r effeithiau (os o gwbl), a sut gellid cynyddu unrhyw effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol mewn perthynas â chyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg neu beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Mae angen mwy o wybodaeth (yn cynnwys sail y dystiolaeth) er mwyn i’r holl ymgynghoreion allu rhoi sylwadau ystyrlon ar y cwestiwn hwn.

## Cwestiwn 9

Datblygwyd y cynllun hwn ar y cyd, ac mae trafodaethau am iaith a hunaniaeth wedi dangos y dylid defnyddio’r byrfodd LHDTC+. Mae’r byrfodd yn sefyll am bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol a cwiar / sy’n cwestiynu, ac mae’r + yn cynrychioli hunaniaethau rhywiol eraill. O ganlyniad, rydym yn cyfeirio at bobl LHDTC+ yn y Cynllun.

Beth yw eich barn am y term hwn ac a fyddai’n well gennych chi ddefnyddio term arall? Efallai bod siaradwyr Cymraeg yn dymuno ystyried terminoleg addas yn y ddwy iaith.

Rydym yn cytuno bod y term LHDTC+ yn cael ei ddeall yn eang ac y dylid ei ddefnyddio. Byddai hyn yn helpu cefnogi cysondeb wrth gyfeirio at bobl LHDTC+ ledled Cymru. Credwn ei bod yn bwysig defnyddio’r term LHDTC+ gan ei fod yn cynnwys y rhai sy’n cwestiynu eu cyfeiriadedd rhywiol neu’u hunaniaeth rhywedd a’r rhai sy’n nodi eu bod yn amrywiolion lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol neu cwiar.

Credwn y dylid rhoi cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio terminoleg Gymraeg os ydynt yn dewis, ond nodi y gallent deimlo’n fwy cyfforddus yn defnyddio’r byrfodd Saesneg LGBTQ+ sy’n cael ei dderbyn a’i ddeall yn eang, yn hytrach na’r byrfodd Cymraeg.

## Cwestiwn 10

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y gofod hwn i adrodd arnynt:

Yn y Rhagair Gweinidogol ar dudalen 1, gwneir y datganiad canlynol: "Sefydlwyd gwasanaeth hunaniaeth rhywedd i helpu ein teulu traws i fod yn nhw eu hunain". Gall fod yn fuddiol esbonio beth mae "ein teulu traws" yn ei olygu.

Hefyd, gwneir y datganiad canlynol yn y Rhagair Gweinidogol: 'Ni oedd y genedl gyntaf yn y DU i gynnig PReP (Proffylacsis Cyn-gysylltiad, cyffur gwrth-HIV) am ddim gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG)'. Gellid dweud bod hyn yn awgrymu neu'n atgyfnerthu'n anfwriadol y gred fod HIV yn glefyd 'hoyw' neu 'LHDTC+'. Er bod cyfraddau HIV yn anghymesur o uwch ymhlith aelodau o'r gymuned LHDTC+, nid yw HIV wedi ei gyfyngu i'r gymuned hon o bell ffordd. Gall unrhyw un – beth bynnag yw ei ryw, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth rhywedd, mynegiant rhywedd neu ffactorau eraill (fel derbyn gwaed a roddwyd) — gaffael HIV. Efallai byddai'n well dileu'r frawddeg hon neu amlinellu cyd-destun pellach iddi.

Hefyd, mae'r un paragraff yn cynnwys y frawddeg ganlynol: 'Yn ystod Covid-19, sefydlwyd grant lleoliadau LHDTC+ pwrpasol a galluogom artistiaid drag i gael mynediad at ein cronfa gweithwyr llawrydd'. Mae'n ymddangos mai'r ensyniad anfwriadol yw bod "artistiaid drag" o'r gymuned LHDTC+ yn unig. Nid yw hyn bob amser yn wir gan fod rhai artistiaid drag yn wrywod cis, felly gallai fod yn fuddiol addasu'r frawddeg i adlewyrchu hyn.

Yn y Cyflwyniad ar dudalen 3/4, gwneir y datganiad canlynol: "Caiff yr anfanteision hyn eu dwysáu ymhellach pan fydd rhai anghenion a ffactorau sy'n gwneud pobl LHDTC+ yn agored i niwed yn gorgyffwrdd â nodweddion gwarchodedig eraill gan gynnwys oedran, hil, rhywedd, crefydd ac anabledd". Nid yw rhywedd yn nodwedd warchodedig a gallai fod yn well rhoi 'ailbennu rhywedd a rhyw', sy'n nodweddion gwarchodedig, yn lle hyn.

## Gallai ymatebion i ymgynghoriadau gael eu cyhoeddi. I gadw eich ymateb yn ddienw (yn cynnwys cyfeiriadau e-bost), ticiwch y blwch.

☐